# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG (MÔN A GWYNEDD)** | **SPECIAL EDUCATIONAL NEEDS JOINT-COMMITTEE (ANGLESEY & GWYNEDD)** |
| **DYDD GWENER, 19 MEDI 2014 am 2.00 o'r gloch y prynhawn** | **FRIDAY, 19 SEPTEMBER, 2014 at 2:00 p.m.** |
| **SIAMBR HYWEL DDA, PENCADLYS Y CYNGOR, CAERNARFON** | **HYWEL DDA CHAMBER, COUNCIL HEADQUARTERS, CAERNARFON** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU/MEMBERS:**

Cynghorwyr/Councillors:

**CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**

Annwen Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Jones, Beth Lawton, Caerwyn Roberts *(Cadeirydd/Chair)* Peter Read, Eirwyn Williams.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN/ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

Derlwyn Hughes, Trefor Lloyd Hughes, Llinos M.Huws *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Gwilym O.Jones, R.Meirion Jones, J.Arwel Roberts, Ieuan Williams

**YR EGLWYS/THE CHURCH**

Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales)
Gwag/Vacant (yr Eglwys Babyddol Rufeining/The Roman Catholic Church)
Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion/Free Churches)

# **R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 4 GORFFENNAF, 2014** (Tudalennau 1 - 6)

Bydd cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a gynhaliwyd ar 4ydd Gorffennaf, 2014 yn cael eu cyflwyno i'w cadarnhau.

3 **CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG AM Y FLWYDDYN GYLLIDOL YN DIWEDDU MAWRTH, 2014** (Tudalennau 7 - 52)

Cyflwyno cyfrifon terfynol y Cyd-Bwyllgor AAA am y flwyddyn gyllidol o Ebrill, 2013 i Fawrth, 2014 ynghyd ag adroddiad yr Archwiliwr Allanol ynglyn â'r archwiliad o'r Datganiadau Ariannol (Adroddiad ISA 260).

4 **PAPUR GWYN ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL** (Tudalennau 53 - 58)

Cyflwyno adroddiad y Prif Seicolegydd Addysgol.

5 **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 59 - 60)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig.

6 **ADOLYGIAD STRATEGOL ANGHENION ADDYSGOL YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD - CYNGOR GWYNEDD** (Tudalennau 61 - 66)

Cyflwyno adroddiad ynglyn â'r adolygiad strategol o Anghenion Addysgol Ychwanegol a Chynhwysiad gan Gyngor Gwynedd.

7 **CYFARFOD NESAF Y CYD-BWYLLGOR**

Mae cyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor wedi'i drefnu am 10:30 y bore, ddydd Gwener, 21 Tachwedd yn Llangefni.

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4ydd Gorffennaf, 2014

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Caerwyn Roberts (Cyngor Gwynedd) (Cadeirydd)<br><br>**Cyngor Gwynedd**<br><br>Cynghorwyr Elin Walker Jones, Beth Lawton, Eirwyn Williams<br><br>**Cyngor Sir Ynys Môn**<br><br>Cynghorwyr Derlwyn Hughes, Gwilym O.Jones, R.Meirion Jones |
| **WRTH LAW**: | Mr Gareth Payne (Prif Seicolegydd Addysgol)<br>Mr Dewi Jones (Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd)<br>Mrs Delyth Molyneux (Pennaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn)<br>Mrs Mair Read (Swyddog Addysg Anghenion Arbennig Ynys Môn)<br>Mr William E.Jones (Uwch Reolwr Cyllid Cyngor Gwynedd)<br>Mrs Kathy Bell (Uwch Gyfrifydd Addysg Cyngor Gwynedd)<br>Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorwyr Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, Peter Read (Cyngor Gwynedd); Cynghorwyr Trefor Ll.Hughes, Llinos M.Huws, J.Arwel Roberts, Ieuan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn) Mr Rheinallt Thomas (Eglwysi Rhyddion) |

---

### 1. CADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Caerwyn Roberts o Gyngor Gwynedd yn Gadeirydd y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig am y cyfnod dwy flynedd nesaf.

### 2. IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd Llinos M.Huws o Gyngor Sir Ynys Môn yn Is-Gadeirydd y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig am y cyfnod dwy flynedd nesaf.

### 3. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Cyd-Bwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2014 ac fe'u cadarnhawyd fel rhai cywir yn amodol ar gywiro'r ddau gyfeiriad ynddynt at Mr Darren Jackson i ddarllen Mr Garem Jackson.

### 5. YR UNED DDARPARU ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Seicolegydd Addysgol yn amlinellu gweithgareddau'r Uned Ddarparu yn ystod tymor y Gwanwyn, 2014.

Cyfeiriodd y Prif Seicolegydd Addysgol at y prif ystyriaethau fel a ganlyn –

- Trefniadau gweinyddu prosesau asesu ac adolgu yn ystod y cyfnod. Ar ddechrau'r tymor roedd gan y tîm gweinyddol gyflenwad staff llawn a manteisiwyd ar hyn i ymateb yn dda i ddatblygiadau newydd gan gynnwys gweithredu fersiwn newydd o'r bas data ONE.Ym mis Mawrth, gadawodd yr Uwch Swyddog Gweinyddol a oedd wedi'i secondio i'r swydd, ac fe ddychwelodd i'w swydd

flaenorol. Ail drefnwyd y dyletswyddau swyddfa yn y cyfamser ac fe ddechreuwyd ar y broses o hysbysebu i lenwi'r swydd tan fis Mawrth, 2015.

- Mewn perthynas â'r Gwasanaeth Athrawon Arbenigol, hysbysebwyd am athrawon arbenigol ym meysydd anawsterau iaith, cyfathrebu ac awtistiaeth; anawsterau golwg, ac anaswsterau clyw. Penodwyd athrawes newydd i ymuno â'r tîm anawsterau iaith, cyfathrebu ac awtistiaeth i gychwyn ar gwrs hyfforddiant ym mis Medi ond bu raid ail hysbysebu'n allanol am y swyddi yn y ddau faes arall. Cafodd absenoldeb salwch un o'r ddwy athrawes arbenigol nam ar y golwg effaith ar y gwasanaeth yn enwedig o du'r athrawes arall oedd yn ysgwyddo'r gwaith ychwanegol. Dwysawyd y sefyllfa gan nifer uchel y plant gyda nam ar y golwg yn trosglwyddo i'r sector uwchradd a hwythau angen mewnbwn rheolaidd dwys am eu bod angen mynediad i'r cwricwlwm trwy gyfrwng Braille.
- Parthed y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, ceir yn yr adroddiad ddadansoddiad o oblygiadau cyllidol y penderfyniad a wnaethpwyd yn y cyfarfod blaenorol i fwrw ymlaen i drefnu i'r tair seicolegwraig cynorthwyol sydd ar hyn o bryd yn gweithio i'r gwasanaeth fynychu cwrs hyfforddi er mwyn sicrhau cyflenwad o seicolegwyr cymwysiedig i'r dyfodol. Mae dwy o'r seicolegwyr cynorthwyol wedi cael lle ar y cwrs hyfforddi tair blynedd yng Nghaerdydd o fis Medi ymlaen, un ar sail heb ei gyllido a'r llall ar le wedi'i gyllido. Penderfynodd y drydedd seicolegwraig cynorthwyol i beidio gwneud cais am le hyfforddi a pharhau i weithio yn ei swydd bresennol gyda'r Cyd-Bwyllgor am flwyddyn arall. Dengys yr adroddiad y gost o gefnogi'r ddwy seicolegwraig fel seicolegwyr dan hyfforddiant am y cyfnod tair blynedd. Bydd gofyn i'r gwasanaeth weithredu gyda 1.4 seicolegydd yn llai am y dair blynedd ond bernir bod y buddsoddiad yn un gwerthfawr i'w wneud ac y bydd yn dwyn ffrwyth yn y dyfodol. Bydd rhan o waith maes y ddwy fyfyrwraig yn cael ei wneud yn lleol.
- Mewn perthynas â hyfforddiant y tîm seicolegwyr addysgol, yn ystod y tymor fe fynychodd rhan fwyaf y seicolegwyr gwrs yn y dull o drefnu cyfarfodydd a elwir yn Gynllunio Person-Ganolog (Person Centred Planning - PCP).
- Mae'r data ar gyfer Gwynedd yn awgrymu bod llai o ddatganiadau wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod statudol na'r arfer am y tymor hwn.

  Cadarnhaodd Swyddog Addysg Anghenion Arbennig Ynys Môn bod ffigyrau Ynys Môn o ran y datganiadau sydd wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod 26 wythnos yn ymdebygu i rai Gwynedd yn yr ystyr eu bod yn adlewyrchu tan berfformiad. Mae'r canlyniadau hyn i'w priodoli i raddau i'r anawsterau a wynebwyd gan yr Uned Weinyddol o ddechrau'r flwyddyn ymlaen o safbwynt trosiant staff gydag aelodau staff newydd yn dod i mewn i'r uned gan olygu ei bod yn anodd rhoi arweiniad i'r tîm. Mae'r rhain bellach wedi'u datrys. Un o'r problemau hir sefydlog mewn perthynas â chwblhau asesiadau yw'r anhawster am ba bynnag reswm i dderbyn gwybodaeth amserol gan asiantaethau eraill. Felly, fe gytunwyd y byddid yn dod i benderfyniad ar asesiadau ar sail y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd. Hyderir y bydd y cam hwn yn arwain at godi'r perfformiad yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol am y tymor a'r cyfnod adrodd nesaf. Adroddodd y Swyddog y gwnaed penodiad i swydd Uwch Swyddog Gweinyddol yr Uned Ddarparu tan fis Mawrth, 2015 ac fe ddywedodd y bu i ddeilydd blaenorol y swydd ddechrau ar waith moderneiddio systemau gweinyddol yr Uned a hyrwyddo cyflwyno system bas data ONE. At hynny, bydd yr Uned yn ymdrin ag achosion statudol yn unig yng nghyswllt Ynys Môn am fod y drefn ariannu ysgolion wedi newid bellach gyda chyllid anghenion addysgol arbennig wedi'i ddatganoli i'r ysgolion ym Môn.

  Ystyriwyd y wybodaeth a gyflwynwyd gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ac fe wnaed y sylwadau canlynol yn y drafodaeth ddilynol arni –

  - Gyda gweithredu trefn ddatganoli cyllid anghenion addysgol arbennig i'r ysgolion gofynnwyd a fydd yna barhau i ddarparu cymorth iddynt. Dywedodd Swyddog Addysg Ynys Môn y bydd y cymorth yn parhau ar lefel statudol ac mai o ran y weinyddiaeth fydd y gwahaniaeth gyda'r Cyd-Bwyllgor yn ymwneud gyda'r drefn statudol yn unig.
  - Tra'n croesawu'r camau hyfforddi y byddir yn eu cymryd mewn perthynas â'r ddwy seicolegwraig cynorthwyol fel gweithredu blaengar pwysleisiwyd y pwysigrwydd o ymrwymo'r seicolegwyr hyfforddedig i wasanaeth y Cyd-Bwyllgor am gyfnod wedi hynny.
  - Holwyd am ymarferoldeb cymryd camau pellach i geisio denu unigolion ac yn yn enwedig siaradwyr y Gymraeg i'r proffesiwn trwy gynnal presenoldeb mewn sesiynau gyrfaoedd a/neu trwy gynnig bwrsari fel anogaeth i'r maes. Ymatebodd y Swyddogion trwy ddweud bod y

DRAFT

broses hyfforddi ar gyfer cymhwyso fel seicolegydd addysgol yn un hir iawn. Mae gan y Cyd-Bwyllgor draddodiad o ddod â seicolegwyr addysgol yn eu blaen trwy hyfforddiant.

Dygodd Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd sylw'r Cyd-Bwyllgor at y materion isod:

- Dywedodd bod diolch yn ddyledus i'r Prif Seicolegydd Addysgol am y gwaith yn gysylltiedig â dod â'r cynllun hyfforddi seicolegwyr ymlaen ac i Uned Gyllid Cyngor Gwynedd am roi'r sicrwydd ariannol yn yr ystyr bod y gefnogaeth gyllidol ar gael i alluogi gwireddu'r cynllun.
- Awgrymodd bod y Prif Seicolegydd Addysgol yn cylchredeg i benaethiaid ysgolion y ddwy sir lythyr byr o gyflwyniad yn ymgorffori gwybodaeth ar ffurf tablau yn gosod allan ddyletswyddau tri thîm yr Uned Ddarparu yn ogystal â'r camau sydd wedi cael eu cymryd i atgyfnerthu'r timau ac i ddenu unigolion addas iddynt.
- Awgrymodd bod y Prif Seicolegydd Addysgol yn ystyried sut orau i gyflwyno i'r Cyd-Bwyllgor gynnwys Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ynglyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol y mae'n destun ymgynghori tan 25 Gorffennaf, o ran sut mae'r newidiadau arfaethedig am effeithio'r maes anghenion addysgol arbennig fel bod y Cyd-Bwyllgor yn deall beth yw'r goblygiadau mewn perthynas â sut fydd yn gweithredu ar ran yr awdurdodau ac yn darparu gwasanaethau i'r dyfodol.

  Gofynnwyd gan Aelod a fyddai Aelodau'r Cyd-Bwyllgor yn cael gweld yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn. Awgrymodd Pennaeth Dysgu Cyngor Sir Ynys Môn bod yr ymateb proffesiynol i'r ymgynghoriad yn cael ei rannu gyda'r Cyd-Bwyllgor trwy'r Weinyddiaeth a bod yna gyflwyno adroddiad ffurfiol i gyfarfod y Cyd-Bwyllgor ym mis Medi i amlinellu goblygiadau'r newidiadau deddfwriaethol bwriedig i'r Cyd-Bwyllgor yn neilltuol gan gynnwys unrhyw oblygiadau ariannol perthnasol. Cytunwyd ar y ffordd hon o weithredu.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI:**

- **Y Prif Seicolegydd Addysgol i gylchredeg i benaethiaid ysgolion Gwynedd a Môn wybodaeth ynglyn â chyfansoddiad tri thîm yr Uned Ddarparu a'u dyletswyddau yn ogystal â'r camau a gymerwyd i atgyfnerthu'r timau o ran denu unigolion addas iddynt.**
- **Y Prif Seicolegydd Addysgol –**

  - **I anfon ymlaen i'r Swyddog Pwyllgor yr ymateb proffesiyol i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Papur Gwyn ynglyn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol i'w rannu gydag aelodau'r Cyd-Bwyllgor ac**
  - **I baratoi i gyfarfod nesaf y Cyd-Bwyllgor adroddiad ar oblygiadau'r Papur Gwyn i'r Cyd-Bwyllgor yn neilltuol, gan gynnwys unrhyw oblygiadau ariannol.**

**6. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH, 2014**

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Cyd-Bwyllgor – Adroddiad Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd yn ymgorffori adroddiad cyfrif inwcm a gwariant refeniw'r Cyd-Bwyllgor am 2013/14 ynghyd â datganiad o'r cyfrifon ar ffurf statudol wedi'i ardystio ond cyn archwiliad.

Adroddodd Uwch Reolwr Cyllid Cyngor Gwynedd bod gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon cyd-bwyllgorau fel yr amlinellir yng nghorff yr adroddiad. Dywedodd bod y ddogfennaeth wedi'i rhannu'n ddwy fel a ganlyn –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2013/14 ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant. Dywedodd y Swyddog mai £110,805 oedd cyfanswm tanwariant net y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn 2013/14. O ychwanegu'r swm hwn at falans reserf y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth, 2013 sef £166,351 daw â chyfanswm y balans reserf i £277,156 ar ddiwedd Mawrth, 2014.

  Ystyriodd Aelodau'r Cyd-Bwyllgor y wybodaeth a gyflwynwyd ac fe godwyd cwestiynau ynghylch y gwariant o dan rai penawdau gan gynnwys y cynnydd mewn costau post. Gofynnwyd a oedd



DRAFT

yna gyllid ar gael o'r balansau i wella trefniadau'r swyddfa.Ymatebodd y Swyddogion bod ymdrech wedi cael ei wneud i foderneiddio'r systemau swyddfa a bod lleihau costau post yn flaenoriaeth. Ar y llaw arall rhaid cadw mewn cof ofynion cyfrinachedd wrth drosglwyddo gwybodaeth a'r cyfrwng a ddefnyddir i wneud hynny ynghyd â'r ffaith bod rhai asiantaethau yn ymwneud trwy waith papur. Yn ogystal, er bod yna gynllun mewn lle i leihau balansau'r Cyd-Bwyllgor cafwyd anawsterau wrth geisio recriwtio unigolion i swyddi arbenigol. Gan hynny, aethpwyd ati i o fewn y fframwaith weithredu i ystwytho ychydig ar y patrymau cyflogi i recrwitio staff lle bo'r angen a thrwy hynny lleihau'r balansau. Ar y llaw arall, fe all y Cyd-Bwyllgor wynebu toriadau i'w gyllideb flynyddol yn y dyfodol gan olygu bydd raid iddo gynllunio yn yr hir dymor ar sail cyllidol llai.

Dywedodd Uwch Reolwr Cyllid Cyngor Gwynedd mai arian i bwrpas unwaith ac am byth yw balansau'r Cyd-Bwyllgor ac mai'n erbyn y gyllideb barhaol y gellir gwneud ymrwymiadau parhaol. Mae'r sefyllfa lle mae'r Cyd-Bwyllgor yn dal cyfwerth â chwarter o'i drosiant o £1m mewn reserfau yn un i gadw golwg arni er y gall fod yna resymau penodol dros wneud hynny.

Dywedodd Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd bod cael yr arian wrth gefn yn rhoi'r hyblygrwydd a'r sicrwydd ariannol i'r Cyd-Bwyllgor y gall weithredu i geisio denu unigolion addas i'w gyflogaeth a hefyd rhoi cymorth i mewn i sicrhau bod plant yn cael y sylw fel bo'r angen.

- Datganiad o'r cyfrifon ar ffurf statudol wedi'i ardystio ond cyn archwiliad.

  Dywedodd Uwch Reolwr Cyllid Cyngor Gwynedd bod y datganiad wedi'i lunio a'i gyflwyno ar ffurf safonol statudol. Bydd y cyfrifon yn cael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru a bydd yr Archwilydd Penododig yn cynhyrchu adroddiad ISA260 yn amlinellu prif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru o'r archwiliad fydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyd-Bwyllgor ym mis Medi gyda'r cyfrifon archwiliedig. Mae sawl rhan i'r cyfrifon yn cynnwys nodiadau eglurhaol ynghylch y polisïau cyfrifo.

**Penderfynwyd –**

- **Derbyn y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2013/14 a nodi'i gynnwys.**
- **Derbyn y Datganiad o'r Cyfrifon am 2013/14 (cyn archwiliad) a nodi'i gynnwys.**

## 7. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Cyflwynwyd er ystyriaeth a chymeradwyaeth y Cyd-Bwyllgor – Y Datganiad o Lywodraethu Blynyddol am 2013/14 yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio Cymru (Diwygio) 2012 sy'n dweud bod yn rhaid i bob Cyd-Bwyllgor gynhyrchu Datganiad o Reolaeth Mewnol.

Dywedodd Uwch Reolwr Cyllid Cyngor Gwynedd y byddai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei gyfuno gyda'r cyfrifon archwiliedig i'w cyflwyno fel un dogfen gyfansawdd i gyfarfod y Cyd-Bwyllgor ym mis Medi.

Cyflwynodd Swyddog Addysg Anghenion Arbennig Ynys Môn y datganiad yn ffurfiol i'r Cyd-Bwyllgor a dywedodd ei fod yn seiliedig ar gyfansoddiad y Cyd-Bwyllgor a ddiweddarwyd ddiwethaf yn 2014. Awgrymodd yng ngholeuni'r newidiadau disgwyliedig sydd yn yr arfaeth gyda chyflwyno Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ynglyn ag anghenion dysgu ychwanegol bod angen adolygu'r cyfansoddiad i sicrhau ei fod yn gyfoes ac yn cyflawni'r gofynion. At hynny, mae angen adolygu hefyd y cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r ddau awdurdod i adlewyrchu unrhyw newidiadau .

Dygwyd sylw at y ffaith bod y Datganiad Llywodraethu wedi'i ddylunio i ymateb y gofyn ffurfiol am ddatganiad o reolaeth mewnol ac nad oedd yr Archwilydd Allanol wedi gwneud unrhyw sylwadau ar ei gynnwys yn ei archwiliad y llynedd. Awgrymwyd y gallai unrhyw addasiadau i'r cyfansoddiad a/ neu'r cytundeb effeithio ar ffurf a chynnwys y datganiad i'r dyfodol.

Cytunwyd y dylai aelodau'r Cyd-Bwyllgor derbyn copi o gyfansoddiad cyfredol y Cyd-Bwyllgor fel cyfeirnod ar gyfer adolygiad i ddod.



DRAFT

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol am 2013/14 fel y'i gyflwynwyd.**

**CAM GWEITHREDU'N CODI: Swyddog Pwyllgor i gylchredeg copi o gyfansoddiad cyfredol y Cyd-Bwyllgor i'w aelodau.**

**Cynghorydd Caerwyn Roberts**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig<br>(Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd) |
| **DYDDIAD** | 19 Medi 2014 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ac Archwiliad perthnasol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;<br>• Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;<br>• Llythyr Cynrychiolaeth. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr |
| **AWDUR** | Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL

Bydd aelodau yn cofio adroddwyd fel a ganlyn i'r cyfarfod 4 Gorffennaf 2014 o'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig:

1.1 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.2 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.

1.3 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig Ynys Môn a Gwynedd.

1.4 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru)(Diwygio) 2010 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol, h.y. cyfrif incwm a gwariant, a lle mae'r trosiant yn fwy na £1m, rhaid paratoi datganiad o'r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

1.5 Bydd y Datganiad o'r Cyfrifon yn destun archwiliad ar wahân gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 2. CYFRIFON 2013/14

Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2013/14 i'r cyfarfod 4 Gorffennaf 2014 o'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig yn unol â'r drefn "arferol" ar ffurf adroddiad "alldro" syml, ynghyd â'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2013/14 (cyn archwiliad).

## 3. ARCHWILIAD

Nodwyd ar y pryd byddai'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru, a cyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan yr Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

## 4. CYFRIFON TERFYNOL 2013/14

Cyflwynir hefyd y fersiwn derfynol ôl-archwiliad o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2013/14. Mae'r mân newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad 'ISA260' gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## 5. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig dderbyn a nodi'r wybodaeth sy'n yr atodiadau,** sef –

- Adroddiad 'ISA260' gan Swyddfa Archwilio Cymru
- Datganiad o'r Cyfrifon 2013/14 (cyn archwiliad)

## 6. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad A i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru) wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod.

## 7. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Anthony Barrett o Swyddfa Archwilio Cymru yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.

# Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig
## (Cynghorau Gwynedd a Môn)

# DATGANIAD O'R CYFRIFON 2013/14

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
www.gwynedd.gov.uk

# MYNEGAI

| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagymadrodd Eglurhaol | 2 - 4 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 5 |
| Datganiad o’r Symudiad Mewn Reserfau | 6 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 7 |
| Y Fantolen | 8 |
| Datganiad Llif Arian | 9 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 10-23 |
| Adroddiad yr Archwilwyr | 24-25 |
| Atodiad A - Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 26-28 |

# RHAGYMADRODD EGLURHAOL

## Rhagarweiniad

Mae'r Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Mae'n gyfrifol am gyflawni gwaith statudol yn y maes Anghenion Addysgol Arbennig ar ran ysgolion a swyddogion cleient y ddau Awdurdod Lleol. Yn ogystal â hyn mae'r Gwasanaeth Seicolegol Addysgol a Tîm Athrawon Arbenigol y ddau Awdurdod Lleol o fewn y Cyd-Bwyllgor AAA. Maent yn cynghori ysgolion a chefnogi disgyblion gydag anghenion addysgol arbennig golwg, clyw, awtistiaeth, anhwylderau cyfathrebu, iaith ac anghenion corfforol neu feddygol.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig am 2013/14 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 6 i 23. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2013/14.*

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng Cyngor Gwynedd (61.4%) a Chyngor Sir Ynys Môn (38.6%).

- **Y Fantolen** - sydd yn gosod allan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2014.

- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2013/14 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan y Rhagymadrodd yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon. Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd gan y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg cymeradwy perthnasol ac maent wedi'u egluro yn llawn yn y Polisïau Cyfrifo yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 10.

## Gwariant Refeniw yn 2013/14

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 7 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor yn £1,090k yn ystod 2013/14, gyda'r sefyllfa net yn (£109k). Wrth wyrdroi'r addasiadau technegol, fel sy'n ofynnol yn y Côd, trwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau gwelir mai (£111k) yw'r gwir gynnydd net.

- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2013/14 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 4 Gorffennaf 2014. Cafwyd cymeradwyaeth aelodau'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddio'r tanwariant o £111k i reserf penodol.

- Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 6 a 7 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

**TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)**

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol.

| | Cyllideb | Gwir | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant ar Weithgareddau | 1,200 | 1,088 | (112) |
| Incwm | | | |
| Cyfraniad Cyngor Gwynedd | (731) | (731) | 0 |
| Cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn | (460) | (460) | 0 |
| Incwm Arall | (9) | (8) | 1 |
| (Tanwariant)/Gorwariant Net | 0 | (111) | (111) |

**TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng '<u>Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1)</u> i'r fformat <u>Incwm a Gwariant</u>**

| | Adroddiad Perfformiad | *Addasiad Trawsddodiad | Datganiad Incwm a Gwariant |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwariant | 1,088 | 2 | 1,090 |
| Incwm | (1,199) | 0 | (1,199) |
| **Cost Gwasanaethau Net** | (111) | 2 | (109) |

* Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at addasiadau technegol absenoldeb cronedig .

## Polisiau Cyfrifo

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg cymeradwy perthnasol ac maent wedi'u egluro yn llawn yn y Polisïau Cyfrifo yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 10.

## Newidiadau mewn Polisiau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon

Ni gyflwynwyd unrhyw bolisiau newydd yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* ar gyfer 2013/14 sy'n effeithio ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor.

## Gwybodaeth Bellach

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef <u>www.gwynedd.gov.uk</u>.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

William E Jones
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679406

neu

Caren Rees Jones
Uned Cyfrifeg Canolog, Adran Cyllid
01286 679134

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu yn y wasg leol ar yr adeg briodol.

# CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

## DATGANIAD O'R CYFRIFON

### DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

**CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR**

Cyngor Gwynedd sydd â’r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor a’r Swyddog Cyllid Cyfrifol yw’r Pennaeth Cyllid.

Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

**19 Medi 2014**

**Y Cynghorydd E. Caerwyn Roberts**
**Cadeirydd y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig**

**CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD**

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y “Côd”).

Wrth baratoi’r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio’n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac wedi cydymffurfio â'r Côd Ymarfer.

Hefyd, mae’r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol ac fe gymerwyd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

**TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL**

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig ar 31 Mawrth 2014 a’i incwm a’i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**11 Medi 2014**

**Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi'n 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Gwarged neu (Ddiffyg) ar Ddarparu Gwasanaethau yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd yn dangos balans statudol y Gronfa Gyffredinol cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o reserfau a glustnodwyd a gyflawnir gan y Cyd-Bwyllgor.

| | **Nodyn** | Balans Cronfa Gyffredinol | Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2012** | | **0** | **(72)** | **(72)** | **35** | **(37)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2012/13 | | | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | (104) | 0 | **(104)** | **0** | **(104)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | (104) | 0 | **(104)** | **0** | **(104)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | | 10 | 0 | **10** | **(10)** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | | (94) | 0 | **(94)** | **(10)** | **(104)** |
| Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd | *10* | 94 | (94) | **0** | **0** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2012/13** | | 0 | (94) | **(94)** | **(10)** | **(104)** |
| **Balans 31 Mawrth 2013 a ddygwyd ymlaen** | | **0** | **(166)** | **(166)** | **25** | **(141)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2013/14 | | | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | (109) | 0 | **(109)** | **0** | **(109)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | 0 | 0 | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | (109) | 0 | **(109)** | **0** | **(109)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | | (2) | 0 | **(2)** | **2** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | | (111) | 0 | **(111)** | **2** | **(109)** |
| Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd | *10* | 111 | (111) | **0** | **0** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2013/14** | | 0 | (111) | **(111)** | **2** | **(109)** |
| **Balans 31 Mawrth 2014 a ddygwyd ymlaen** | | 0 | (277) | **(277)** | **27** | **(250)** |

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR – 2013/14

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu'r gwasanaeth anghenion addysgol arbennig yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

| 2012/13 | | | | 2013/14 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** | | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 1,002 | 0 | 1,002 | Gweithwyr | 965 | 0 | 965 |
| 15 | 0 | 15 | Eiddo | 25 | 0 | 25 |
| 46 | 0 | 46 | Cludiant | 51 | 0 | 51 |
| 35 | 0 | 35 | Gwasanaethau a Chyflenwadau | 49 | 0 | 49 |
| 0 | (1,202) | (1,202) | Incwm | 0 | (1,199) | (1,199) |
| **1,098** | **(1,202)** | **(104)** | **Cost Gwasanaethau** | **1,090** | **(1,199)** | **(109)** |
| 0 | 0 | 0 | Gwariant Gweithredol Arall | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 0 | 0 |
| 0 | 0 | 0 | Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | 0 |
| **1,098** | **(1,202)** | **(104)** | **(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **1,090** | **(1,199)** | **(109)** |

# Y FANTOLEN – 31 MAWRTH 2014

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor.

| **31 Mawrth 2013** | | *Nodyn* | **31 Mawrth 2014** |
|---|---|---|---|
| **£'000** | | | **£'000** |
| **0** | **Asedau Tymor Hir** | | **0** |
| 1 | Dyledwyr Tymor Byr | *11* | 0 |
| 189 | Arian a Chywerthydd Arian | | 311 |
| **190** | **Asedau Cyfredol** | | **311** |
| (49) | Credydwyr Tymor Byr | *12* | (61) |
| **(49)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(61)** |
| **0** | **Ymrwymiadau Tymor Hir** | | **0** |
| **141** | **Asedau Net** | | **250** |
| (166) | Reserfau Defnyddiadwy | *10* | (277) |
| 25 | Reserfau na ellir eu defnyddio | *13* | 27 |
| **(141)** | **Cyfanswm Reserfau** | | **(250)** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN – 2013/14

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd.

| 2012/13<br>£'000 | | *Nodyn* | 2013/14<br>£'000 |
|---|---|---|---|
| (104) | (Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau | | (109) |
| 9 | Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol *(dyledwyr a chredydwyr)* | *14* | (13) |
| 0 | Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu | | 0 |
| (95) | Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | | (122) |
| 0 | Gweithgareddau Buddsoddi | | 0 |
| 0 | Gweithgareddau Ariannu | | 0 |
| (95) | (Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chywerthoedd arian | | (122) |
| (94) | Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | | (189) |
| **(189)** | **Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | **(311)** |

** Sefyllfa llif arian yn unol â Pholisi Cyfrifo 1.3*

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## NODYN 1 – POLISIAU CYFRIFO

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2013/14 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2014. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013/14* a'r Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth 2013/14, ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) a chyfarwyddiadau statudol a gyhoeddir yn unol â Deddf 2005.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisïau perthnasol yn unig.

### 1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn cymryd lle, nid pan wneir neu dderbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd y Cyd-Bwyllgor yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a phan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor.
- Bydd refeniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd y Cyd-Bwyllgor yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen pan fod balansau o'r fath yn cael eu cysidro yn faterol berthnasol.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na phryd fydd taliadau wedi eu gwneud.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif refeniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

### 1.3 Arian a Chywerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

### 1.4 Asedau Dibynnol

Mae ased dibynnol yn codi pan mae digwyddiad ble mae posibilrwydd caiff y Cyd-Bwyllgor ased ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall digwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyd-Bwyllgor.

Nid yw asedau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach mewn nodyn i'r cyfrifon os yw'n debygol bydd mewnlif o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth. Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor asedau dibynnol.

### 1.5 Ymrwymiadau Dibynnol

Ceir ymrwymiad dibynnol pan fod digwyddiad sy'n arwain at rwymedigaeth posib ar ran y Cyd-Bwyllgor ble bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau gan ddigwyddiad neu fel arall digwyddiad ansicr sydd ddim yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth y Cyd-Bwyllgor. Ceir ymrwymiad dibynnol yn ogystal pan bod amgylchiadau y gwneir darpariaeth amdanynt fel arfer, ond unai, nid yw'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu, ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Nid yw ymrwymiadau dibynnol yn cael eu datgan ar y Fantolen, ond yn hytrach mewn nodyn i'r cyfrifon.

## 1.6 Buddiannau Gweithwyr

### 1.6.1 Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Oherwydd materoliaeth, nid yw cyfrifon y Cyd-Bwyllgor yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cost hawl gwyliau, ond mae wedi ei gynnwys fel rhan o gyfrifon yr awdurdod lletyol.

### 1.6.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae'r rhain yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn tâl diswyddo gwirfoddol. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys y costau, ond cyfrifir y trafodion perthnasol eraill o fewn cyfrifon yr awdurdod lletyol.

### 1.6.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar rhan Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymiadau'r buddion yn cael eu hadnabod i'r Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymiadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

### 1.6.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y Gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun. Gweler paragraff 1.13 isod am fwy o fanylion.

### 1.6.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o'r staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

## 1.7 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau wedi dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ag anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd â amcangyfrif o'r effaith ariannol (lle gellid amcangyfrif y gost) yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

### 1.8 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, Newidiadau i Bolisiau, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau blwyddyn blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad blwyddyn blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan yn ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu bod y newid yn darparu gwybodaeth mwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

### 1.9 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail croniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r awdurdod wedi ei fodloni.

### 1.10 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

### 1.11 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

### 1.12 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW, y cynhwysir TAW neu'n ei dderbyn fel cost 'TAW anadferadwy'. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestriad TAW Cyngor Gwynedd.

### 1.13 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfrifwaith. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm yn berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, p'run a'u os yw'r taliadau a'r derbyniadau wedi eu talu neu eu derbyn a'i peidio yn y flwyddyn.

### 1.14 Pensiynau

Mae'r Safon Adrodd Rhyngwladol (IAS) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor yn cynnwys y taliadau a wnaethpwyd tuag at bensiynau'r swyddogion yn ystod y flwyddyn. Ni adnabyddir yr asedau a'r ymrwymiadau sy'n berthnasol i swyddogion y Cyd-Bwyllgor, ac felly nid oes ymrwymiad yn y fantolen ar gyfer taliadau buddion a wneir yn y dyfodol. Mae'r asedau a'r ymrwymiadau sy'n berthnasol i'r Cyd-Bwyllgor wedi eu cynnwys yng nghyfrifon yr Awdurdod Arweiniol.

### 1.15 Gweithrediadau wedi eu Cyd-reoli

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gweithgareddau sy'n cael eu ymgymryd â hwy ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

Mae'r Cyd-Bwyllgor AAA wedi ei gategoreiddio fel Gweithred sydd wedi ei Gyd-reoli.

**NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO**

Ni chyflwynwyd unrhyw bolisiau newydd sy'n effeithio ar driniaeth cyfrifon y Cyd-Bwyllgor.

**NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL**

Er mwyn cydymffurfio â'r côd ymarfer cyfredol a'r SAARh sefydlwyd Cyfrif Absenoldeb Cronedig. Mae'r tablau isod yn adlewyrchu'r addasiad cyfnod blaenorol angenrheidiol a wnaed i'r prif Ddatganiadau o'r Cyfrifon a'r Nodiadau i'r Cyfrifon perthnasol.

## Effaith yr addasiad ar y Datganiad Symudiad Mewn Reserfau 2012/13

| | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13 | | | | Ailddatgan | | | | Addasiad ailddatgan 2012/13 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Balans Cronfa Gyffredinol | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod** | Balans Cronfa Gyffredinol | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod** | Balans Cronfa Gyffredinol | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Awdurdod** |
| | £'000 | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | **£'000** | **£'000** | **£'000** | £'000 | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2012 a ddygwyd ymlaen** | **0** | **(72)** | **0** | **(72)** | **0** | **0** | **35** | **35** | **0** | **(72)** | **35** | **(37)** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2012/13 | | | | | | | | | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | (94) | **(94)** | **0** | **(94)** | (10) | **(10)** | **0** | **(10)** | (104) | **(104)** | **0** | **(104)** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | 0 | **0** | **0** | **0** | 0 | **0** | | **0** | 0 | **0** | **0** | **0** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | (94) | **(94)** | **0** | **(94)** | (10) | **(10)** | **0** | **(10)** | (104) | **(104)** | **0** | **(104)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | 0 | **0** | **0** | **0** | 10 | **10** | **(10)** | **0** | 10 | **10** | **(10)** | **0** |
| **Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd** | (94) | **(94)** | **0** | **(94)** | 0 | **0** | **(10)** | **(10)** | (94) | **(94)** | **(10)** | **(104)** |
| Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd | 94 | **0** | **0** | **0** | 0 | **0** | **0** | **0** | 94 | **0** | **0** | **0** |
| **Cynnydd/Gostyngiad yn 2012/13** | 0 | **(94)** | **0** | **(94)** | 0 | **0** | **(10)** | **(10)** | 0 | **(94)** | **(10)** | **(104)** |
| **Balans 31 Mawrth 2013 a ddygwyd ymlaen** | **0** | **(166)** | **0** | **(166)** | **0** | **0** | **25** | **25** | **0** | **(166)** | **25** | **(141)** |

## Effaith yr addasiad ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr 2012/13

| | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012-13 | | | Ailddatagn | | | Addasiad ailddatgan 2012-13 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net | Gwariant Gros | Incwm Gros | Gwariant Net |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gweithwyr | 1,012 | 0 | **1,012** | (10) | 0 | **(10)** | 1,002 | 0 | **1,002** |
| Eiddo | 15 | 0 | **15** | 0 | 0 | **0** | 15 | 0 | **15** |
| Cludiant | 46 | 0 | **46** | 0 | 0 | **0** | 46 | 0 | **46** |
| Gwasanaethau a Chyflenwadau | 35 | 0 | **35** | 0 | 0 | **0** | 35 | 0 | **35** |
| Incwm | 0 | (1,202) | **(1,202)** | 0 | 0 | **0** | 0 | (1,202) | **(1,202)** |
| **Cost Gwasanaethau** | **1,108** | **(1,202)** | **(94)** | **(10)** | **0** | **(10)** | 1,098 | (1,202) | **(104)** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | **0** |
| **(Gweddill)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **1,108** | **(1,202)** | **(94)** | **(10)** | **0** | **(10)** | 1,098 | (1,202) | **(104)** |

## Effaith yr addasiad ar Y Fantolen 2012/13

| | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13 | Ailddatgan | Addasiad ailddatgan 2012/13 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau Tymor Hir** | **0** | **0** | **0** |
| Dyledwyr Tymor Byr | 1 | 0 | 1 |
| Arian a Chywerthydd Arian | 189 | 0 | 189 |
| **Asedau Cyfredol** | **190** | **0** | **190** |
| Credydwyr Tymor Byr | (24) | (25) | (49) |
| **Ymrwymiadau Cyfredol** | **(24)** | **(25)** | **(49)** |
| **Ymrwymiadau Tymor Hir** | **0** | **0** | **0** |
| **Asedau Net** | **166** | **(25)** | **141** |
| Reserfau Defnyddiadwy | (166) | 0 | (166) |
| Reserfau na ellir eu defnyddio | 0 | 25 | 25 |
| **Cyfanswm Reserfau** | **(166)** | **25** | **(141)** |

## Effaith yr addasiad ar y Datganiad Llif Arian 2012/13

| | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13 | Ailddatgan | Addasiad ailddatgan 2012/13 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| (Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau | (94) | (10) | (104) |
| Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol *(dyledwyr a chredydwyr)* | (1) | 10 | 9 |
| Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu | 0 | 0 | 0 |
| Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | (95) | 0 | (95) |

## Effaith yr addasiad ar Nodyn Addasiadau Rhwng Sail Cyfrifo a Sail Ariannu Dan y Rheoliadau 2012/13

| **ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13 | | Ailddatgan | | Addasiad ailddatgan 2012/13 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol | Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio | Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol | Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio | Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol | Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Addasiadau yn bennaf yn ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | | | | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 0 | 0 | 10 | (10) | 10 | (10) |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **0** | **0** | **10** | **(10)** | **10** | **(10)** |

## Effaith yr addasiad ar y Nodyn Credydwyr Tymor Byr 2012/13

| | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13 | Ailddatgan | Addasiad ailddatgan 2012/13 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Awdurdodau Lleol | 0 | 0 | 0 |
| Corfforaethau a Masnachu Cyhoeddus | 8 | 0 | 8 |
| Endidau Eraill ac Unigolion | 16 | 25 | 41 |
| **Cyfanswm** | **24** | **25** | **49** |

**Effaith yr addasiad ar y Nodyn Reserfau Na Ellir Eu Defnyddio 2012/13**

**a) Tabl Crynodeb :**

| | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13 | Ailddatgan | Addasiad ailddatgan 2012/13 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cyfrif Absenoldeb Cronedig | 0 | (25) | (25) |
| **Cyfanswm Reserfau na Ellir eu defnyddio** | **0** | **(25)** | **(25)** |

**a) Tabl Cyfrif Absenoldeb Cronedig :**

| | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13 | Ailddatgan | Addasiad ailddatgan 2012/13 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans 1 Ebrill** | **0** | **(35)** | **(35)** |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 0 | 10 | 10 |
| **Balans 31 Mawrth** | **0** | **(25)** | **(25)** |

**Effaith yr addasiad ar y Nodyn Datganiad Llif Arian 2012/13**

| | Fel ddatganwyd yn flaenorol 2012/13 | Ailddatgan | Addasiad ailddatgan 2012/13 |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | (2) | 10 | 8 |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | 1 | 0 | 1 |
| | **(1)** | **10** | **9** |

## NODYN 4 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2014/15 wedi cyflwyno nifer o newidiadau i bolisiau cyfrifeg a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2014. Mae'r newidiadau fel a ganlyn:

**SAARh 10 – Datganiadau Ariannol Cyfunol (Mai 2011)**
Mae'r newid yma'n y polisi cyfrifo wedi cyflwyno diffiniad newydd o reolaeth, a ddefnyddir i bennu pa endidau sy'n gyfunol i bwrpas cyfrifon grwp.

**SAARh 11 – Trefniadau ar y Cyd (Mai 2011)**
Mae'r newid yma'n y polisi cyfrifo yn berthnasol i gyfrifo trefniadau ar y cyd, sydd yn drefniant cytundebol a gyd-reolir gan ddau neu fwy o bartion. Dosberthir rhain unai fel menter ar y cyd neu fel gweithred ar y cyd. Nid yw cyfuniad gymesur bellach yn opsiwn i endidau a gyd-reolir.

**SAARh 12 – Datgeliad Diddordeb gydag Endidau Eraill (Mai 2011)**
Mae'r newid yma yn gofyn am nifer o ddatgeliadau'n ymwneud â diddordeb endid mewn is-gwmniau, trefniadau ar y cyd, cymdeithasau ac endidau strwythuredig anghyfunol.

**SAARh 27 – Datganiadau Ariannol ar wahan ac IAS 28 - Separate Financial Statements and IAS 28 – Buddsoddiadau mewn Cymdeithasau a Threfniadau ar y Cyd (diwygiedig Mai 2011)**
Mae'r datganiadau yma wedi eu diwygio o ganlyniad i'r newidiadau i SAARh 10, SAARh 11 a SAARh 12 (uchod). O ystyried na fyddai newid i'r datganiadau ariannol, oni bai datgeliad, o ganlyniad i'r newidiadau i SAARh 10, SAARh 11 a SAARh 12, nid oes ychwaith effaith o ganlyniad i newidiadau yn IAS 27 ac IAS 28.

**IAS 32 – Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad (diwygiedig Rhagfyr 2011)**
Mae'r safon hwn yn cyflwyno newidiadau i'r cyflwyniad o'r offerynnau ariannol ac yn caniatau gosod asedau ariannol yn erbyn ymrwymiadau ariannol.

Mae'n anhebygol y bydd y newidiadau uchod yn cael effaith sylweddol ar Ddatganiad o Gyfrifon y Cyd-Bwyllgor AAA.

## NODYN 5 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod gwneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch gwerth i'w gario yr asedau ac ymrwymiadau, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, y ffactorau eraill hynny yn dybiaethau a thafluniadau hanesyddol, cyfredol a dyfodol ac sy'n cael eu hystyried yn berthnasol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymiadau dibynnol. Gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r canlyniadau a amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol wastad yn cael eu hadolygu.

## NODYN 6 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan yr Awdurdod am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Nid oes unrhyw eitem ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2014 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

## NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

***(Nad ydynt wedi eu datgelu ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr)***

Nid oes eitemau materol o incwm a gwariant nad ydynt wedi eu datgelu ar wyneb y Datganiad incwm a Gwariant.

## NODYN 8 – DIGWYDDIADAU WEDI DYDDIAD Y FANTOLEN

Nid oes unrhyw ddigwyddiadau gwybyddus wedi dyddiad y fantolen.

## NODYN 9 – ADDASIADU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant cyfalaf a refeniw yn y dyfodol.

| **2013/14**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (2) | 2 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(2)** | **2** |

| **2012/13**<br><br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | 10 | (10) |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **10** | **(10)** |

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU A GLUSTNODWYD

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol.

**Reserfau a Glustnodwyd**

| | **Reserf Cyd-Bwyllgor AAA** |
|---|---|
| | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2012** | **72** |
| Trosglwyddiadau: | |
| Rhwng Cronfeydd | 0 |
| Mewn | 94 |
| Allan | 0 |
| **Balans 31 Mawrth 2013** | **166** |
| Trosglwyddiadau: | |
| Rhwng Cronfeydd | 0 |
| Mewn | 111 |
| Allan | 0 |
| **Balans 31 Mawrth 2014** | **277** |

## NODYN 11 – DYLEDWYR TYMOR BYR

| | **31 Mawrth 2013** | **31 Mawrth 2014** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 0 | 0 |
| Endidau Eraill ac Unigolion | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1** | **0** |

## NODYN 12 – CREDYDWYR TYMOR BYR

| | **31 Mawrth 2013** | **31 Mawrth 2014** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Awdurdodau Lleol Eraill | 0 | 17 |
| Corfforaethau a Masnachu Cyhoeddus | 8 | 6 |
| Endidau Eraill ac Unigolion | 41 | 38 |
| **Cyfanswm** | **49** | **61** |

## NODYN 13 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 1 Mawrth 2013 | | 31 Mawrth 2014 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| (25) | Cyfrif Absenoldeb Cronedig | (27) |
| **(25)** | **Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio** | **(27)** |

### Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymeryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| 2012/13 | | 2013/14 |
|---|---|---|
| £000 | | £000 |
| **(35)** | **Balans 1 Ebrill** | **(25)** |
| 10 | Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (2) |
| **(25)** | **Balans 31 Mawrth** | **(27)** |

## NODYN 14 – DATGANIAD LLIF ARIAN : ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

| 2012/13 | | 2013/14 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| 8 | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | (12) |
| 1 | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | (1) |
| **9** | | **(13)** |

## NODYN 15 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

| 2012/13 | | 2013/14 |
|---|---|---|
| £'000 | | £'000 |
| **8** | Ffioedd ar gyfer Gwasanaeth Archwilio Allanol * | **3** |

* (i) Fel rhan o'r gofynion archwilio 2012/13 roedd angen archwilio dwy flynedd ariannol.
(ii) £6k oedd gwir ffi archwilio 2013/14, ond derbyniwyd credyd o £3k parthed ffioedd archwilio is yn 2012/13 sydd wedi lleihau y ffigwr a ddatgelir yn 2013/14 i £3k.

## NODYN 16 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor.

**Aelodau**
Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2014 wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2013/14 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| Taliadau a wnaethpwyd | Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor | Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor |
|---|---|---|
| £3,181 | £0 | £0 |

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth a dderbyniwyd parthed dychweliadau Cynghorwyr .

## NODYN 17 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Ni fu unrhyw becynnau terfynu gwaith sydd yn y blynyddoedd ariannol 2012/13 na 2013/14 ac felly ni fu cost perthnasol i'r cyflogwr .

## NODYN 18 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Mewn egwyddor cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan y cydbwyllgorau ac awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor yn gallu adnabod ei rhan o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2013/14 talodd y Cyd-Bwyllgor £38,947 (£41,177 yn 2012/13) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 14.10% (14.08% yn 2012/13) o dâl pensiynadwy athrawon.

## NODYN 19 - COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion sy'n rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ar ôl cyflogaeth.

Yn 2013/14 talodd y Cyd-Bwyllgor £106,836 (£99,9463 yn 2012/13) am gost pensiwn swyddogion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Lleol sy'n 22.4% o dal pensiynadwy pob swyddog yn y Cynllun (21.9% yn 2012/13).

Mae'r trafodion technegol ariannol perthnasol pellach sy'n gysylltiedig â'r Cyd-Bwyllgor wedi eu cynnwys o fewn cyfrifon Cyngor Gwynedd heb effaith net.

**Adroddiad yr archwilydd annibynnol i Aelodau Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig**

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sef datganiadau cyfrifyddu Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Esboniadol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig ac er mwyn canfod unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn anghywir mewn ffordd berthnasol ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad, neu ei bod yn anghyson mewn ffordd berthnasol â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig**

Yn fy marn i mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig ar 31 Mawrth 2014 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Esboniadol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Anthony Barrett**
**Archwilydd Penodedig**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

**xx Medi 2014**

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 4 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005.

### Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig gan Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn yn 1996 at ddiben darparu gwasanaeth anghenion addysg arbennig drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau.

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei diogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

### Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, bwriadon ac amcanion y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu berthnasol wedi bod yn ei le ar gyfer y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2014 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

## Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

### 3.1 Aelodaeth

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig wedi ei sefydlu yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 o dan adran 101, adran 102(1) (b) (hawl i ddau neu ragor o awdurdodau benodi cyd bwyllgor), adran 103 (gwariant Cyd-bwyllgor i'w rannu rhwng yr awdurdodau), adran 104 (rheolau arferol awdurdodau lleol ar gyfer gwahardd aelod rhag bod yn aelod pwyllgor ar y cyd) ac adran 105 (gwahardd pleidleislo oherwydd buddiant mewn contractau ayb).

Mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys 7 aelod o Gyngor Gwynedd a 7 aelod o Gyngor Sir Ynys Môn. Penodir yr aelodau gan yr Awdurdod yn unol â rheolau cydbwysedd gwleidyddol sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwnnw. Yn ychwanegol mae aelodaeth y Cyd-bwyllgor yn cynnwys 1 aelod a enwebir gan Fwrdd Cyllidol Esgobaethol Bangor sydd â'r hawl i bleidleisio, 1 aelod a enwebir gan yr Eglwys Babyddol sydd â'r hawl i bleidleisio, ac un aelod a enwebir gan yr eglwysi rhyddion nad oes gan yr hawl i bleidleisio.

Mae tymor aelodaeth, yn ogystal â threfniadau penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd, wedi eu diffinio o fewn y Cyfansoddiad.

Mae'r Cyd-bwyllgor yn drefniant parhaol, ac yn unol â'r Cyfansoddiad rhaid i'r naill awdurdod neu'r llall rhoi rhybudd o flwyddyn yn diweddu ar derfyn blwyddyn gyllidol os am dynnu allan o'r trefniant.

### 3.2 Swyddogaethau

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig yn cyflawni'r canlynol ar ran Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn:

- Darparu gwasanaeth anghenion addysg arbennig drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb lefel gwasanaeth rhwng y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau.

### 3.3 Strwythur, Rolau a Chyfrifoldebau

Mae Cyfansoddiad yn ei le ar gyfer y Cyd-bwyllgor, yn ddyddiedig 30 Ionawr 2004. Mae'r Cyfansoddiad yn amlinellu'r rolau canlynol

- Bydd holl weithgaredd y Cyd-bwyllgor yn unol â Rheolau Gweithdrefn Cyngor Sir Ynys Môn.
- Darperir cyfleusterau gweinyddol ac ysgrifenyddol i'r Cyd-bwyllgor gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Cyngor Sir Ynys Môn, a rhennir y gost rhwng y ddau awdurdod.
- Cyflogir staff ar y cyd gan y ddau Awdurdod at ddibenion cyflawni'r swyddogaethau a ddirprwyir i'r Cyd-bwyllgor. Cyflogir staff yn unol ag amodau gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ynghyd ag unrhyw amodau ychwanegol a osodir gan y Cyd-bwyllgor. Mae'r Cyfansoddiad yn diffinio hawliau gweithredu'r Cyd-bwyllgor mewn perthynas â materion cyflogaeth staff.
- Darperir gwasanaeth personél i'r Cyd-bwyllgor gan Cyngor Sir Ynys Môn a rhennir y gost rhwng y ddau awdurdod.
- Bydd rheolau cyllidol Cyngor Gwynedd yn berthnasol i holl weithgaredd cyllidol y Cyd-bwyllgor. Rhaid i'r Cyd-bwyllgor adrodd yn flynyddol i'r ddau awdurdod ar ei sefyllfa gyllidol.
- Darperir yr holl wasanaethau cyllidol i'r Cyd-bwyllgor gan Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd a rhennir y gost rhwng y ddau awdurdod.
- Mae gan y Cyd-bwyllgor yr hawl i sefydlu un is-banel neu fwy ac i ddirprwyo rhai o'i swyddogaethau i'r Is-banel(au) ar yr amod nad yw'r dirprwyo hynny yn rhwystro gallu'r Cyd-bwyllgor ei hun i weithredu'r swyddogaethau hynny.

**Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd wedi ei lywio gan waith y rheolwyr gweithredol sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, unrhyw sylw yn adroddiad blynyddol pennaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol, yn ogystal â sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygiaethau.

- Yn unol â Chyfansoddiad y Cyd-bwyllgor, mae ei holl weithgareddau yn unol â Rheolau Sefydlog Cyngor Sir Ynys Môn. O ganlyniad, felly, mae adolygiadau o effeithiolrwydd y Côd Llywodraethu Lleol, y Cyfansoddiad a chyfundrefn rheolaeth fewnol yr awdurdod hwnnw yn ymgorffori sylfaen lywodraethu'r Cyd-bwyllgor hefyd.

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**.

**Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i adnabod unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

Nid yw'r Cyd-bwyllgor Addysg Anghenion Arbennig o'r farn fod unrhyw faterion o'r fath wedi codi yn ystod asesiad o'i drefniadau llywodraethu sydd yn gwarantu sylw yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yma.

**Rhan 6: BARN**

Rydym yn bwriadau cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

Dewi R. Jones
DEWI R. JONES
PENNAETH ADDYSG, CYNGOR GWYNEDD

**Dyddiad :** 04/07/2014.

E. Caerwyn Roberts
Y CYNGHORYDD E. CAERWYN ROBERTS
CADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR AAA.

**Dyddiad :** 04 · 07 · 2014

Delyth W. Molyneux
DELYTH W. MOLYNEUX
PENNAETH DYSGU, CYNGOR SIR YNYS MÔN

**Dyddiad:** 04/07/2014

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol

# **Cyd Bwyllgor Angehnion Addysgol Arbennig**

**Blwyddyn archwilio:** 2013-14

**Cyhoeddwyd:** Medi 2014

**Cyfeirnod y ddogfen: 542A2014**

# Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Derwyn Owen, Amanda Hughes, Alan Hughes a Andrew Smith.

# Cynnwys

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich datganiadau ariannol. Mae rhai materion i'w dwyn i'ch sylw cyn iddynt gael eu cymeradwyo.


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | |
| Cyflwyniad | 4 |
| Statws yr archwiliad | 4 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig | 4 |
| Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad | 5 |
| Annibyniaeth a gwrthrychedd | 6 |
| Atodiadau | |
| Llythyr Sylwadau Terfynol | 7 |
| Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Gyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig | 10 |
| Crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i'r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw y Cyd Bwyllgor Anghenion Arbennig Addysgol atynt | 12 |

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

**1.** Mae'r Archwilydd Penodedig yn gyfrifol am roi barn ynghylch pa un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig ar 31 Mawrth 2014 a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

**2.** Nid ydym yn ceisio cael sicrwydd llwyr bod y datganiadau ariannol wedi'u datgan yn gywir, ond rydym yn mabwysiadu'r cysyniad o berthnasedd. Wrth gynllunio a chynnal yr archwiliad, rydym yn ceisio nodi camddatganiadau perthnasol yn eich datganiadau ariannol, hynny yw, y rhai hynny a allai gamarwain rhywun sy'n darllen y cyfrifon.

**3.** Y symiau meintiol a ddefnyddiwn i farnu bod camddatganiadau o'r fath yn berthnasol i Gyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig yw £11,000. Gall materion ansoddol penodol megis gofynion cyfreithiol a rheoliadol a sensitifrwydd gwleidyddol hefyd bennu p'un a fernir bod eitem yn berthnasol ai peidio.

**4.** Mae Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260 yn ei gwneud yn ofynnol i ni gofnodi rhai materion sy'n deillio o'r archwiliad o'r datganiadau ariannol i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu corff mewn da bryd i gymryd camau priodol.

**5.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi, er mwyn eu hystyried, y materion hynny sy'n codi o'r archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig, ar gyfer 2013-14, y mae angen cyflwyno adroddiad arnynt o dan ISA 260.

## Statws yr archwiliad

**6.** Gwnaethom dderbyn y datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 ar 30 Mehefin 2014 sef y terfyn amser y cytunwyd arno, ac rydym erbyn hyn wedi cwblhau'r gwaith archwilio fwy neu lai.

**7.** Rydym yn cyflwyno adroddiad i chi ar y materion mwyaf arwyddocaol sy'n deillio o'r archwiliad, y credwn y dylech eu hystyried cyn cymeradwyo'r datganiadau ariannol. Mae tîm yr archwiliad eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Dafydd Edwards, y Pennaeth Cyllid.

## Adroddiad archwilio arfaethedig

**8.** Bwriad yr Archwilydd Penodedig yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau i ni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1.

**9.** Nodir yr adroddiad archwilio arfaethedig yn Atodiad 2.

# Materion sylweddol sy'n deillio o'r archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

**10.** Ni nodwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol, sy'n parhau heb eu cywiro.

## Camddatganiadau a gywirwyd

**11.** Mae yna gamddatganiadau a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol. Nodir y rhain, ynghyd ag esboniadau, yn Atodiad 3.

## Materion sylweddol eraill sy'n deillio o'r archwiliad

**12.** Fel rhan o'r archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion ansoddol a meintiol sy'n berthnasol i'r cyfrifon ac yn cyflwyno adroddiad i chi ar unrhyw faterion sylweddol sy'n codi. Roedd rhai materion yn codi yn y meysydd hyn eleni:

### Mae gennym bryder ynglŷn ag agweddau ansoddol ar eich arferion cyfrifyddu a'ch proses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

**13.** Mae'n ofyniad yn ôl Cod Ymarfer ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol fod manylion trafodion partïon perthynol yn cael eu datgelu o fewn cyfrifon y Cydbwyllgor. Er mwyn casglu'r wybodaeth berthnasol, fe geisiodd Cyngor Gwynedd fanylion buddiannau partïon perthynol gan y Cynghorau perthnasol. Ni wnaeth Cyngor Sir Fôn ddarparu hyn tan ddiwedd un y cyfnod archwilio ac felly fe baratowyd y cyfrifon drafft heb y wybodaeth yma. Yn y dyfodol mae'n rhaid iddynt sicrhau fod y wybodaeth yn cael ei ddarparu yn amserol.

### Nid oes unrhyw faterion eraill y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt

**14.** Nid oes unrhyw faterion eraill i'w hysbysu i chi. Yn arbennig:

- Ni ddaethom ar draws unrhyw anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad.
- Ni thrafodwyd ac ni hysbyswyd y rheolwyr am unrhyw faterion sylweddol y mae angen i ni eich hysbysu amdanynt.
- Nid oes unrhyw faterion eraill sy'n arwyddocaol i'r gwaith o oruchwylio'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y mae angen i ni eich hysbysu chi amdanynt.
- Ni nodwyd gwendidau perthnasol yn eich rheolaethau mewnol nad ydym wedi eich hysbysu amdanynt eisoes
- Nid oes unrhyw faterion eraill y mae'n ofynnol iddynt, yn ôl safonau archwilio, gael eu cyfleu i'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu.

# Annibyniaeth a gwrthrychedd

**15.** Fel rhan o'r broses derfynol, mae'n ofynnol i ni roi sylwadau i chi ynghylch ein hannibyniaeth.

**16.** Rydym wedi cydymffurfio â safonau moesegol ac yn ein barn broffesiynol, rydym yn annibynnol ac ni chaiff ein gwrthrychedd ei beryglu. Nid oes unrhyw gydberthnasau rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Chyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig sy'n effeithio ar ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein barn ni.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

Mr Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD
CF11 9LJ

19 Medi 2014

Annwyl Mr Barrett,

### SYLWADAU YN YMWNEUD Â DATGANIADAU ARIANNOL 2013/14

Darperir y llythyr hwn mewn perthynas â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan honno o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a archwilir) y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 er mwyn mynegi barn ar ba mor wir a theg ydynt ac i ba raddau y maent wedi'u paratoi'n briodol.

Rydym yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl cynnal ymchwiliadau a oedd yn ddigonol yn ein barn ni, y gallwn wneud y sylwadau canlynol i chi.

### SYLWADAU RHEOLWYR

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; yn benodol, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â hynny.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am gynllunio, gweithredu, cynnal ac adolygu trefniadau rheolaeth fewnol er mwyn atal a chanfod twyll a gwallau.

### Gwybodaeth a Roddir

Rydym wedi rhoi'r canlynol i chi:

- mynediad llawn i'r canlynol:

  - yr holl wybodaeth rydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r broses o baratoi'r datganiadau ariannol, megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani gennym at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad anghyfyngedig i staff yr oedd yn angenrheidiol i chi, yn eich barn chi, gael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- canlyniadau ein hasesiad o'r risg y gall y datganiadau ariannol fod wedi eu cam-ddatgan mewn modd perthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth am dwyll neu dwyll a amheuir rydym yn ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig ac yn ymwneud â:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau pwysig yng nghyd-destun rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- ein gwybodaeth am unrhyw honiadau o dwyll, neu dwyll a amheuir, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a roddwyd i ni gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth am bob achos hysbys neu achos a amheuir o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- manylion yr holl bartïon cysylltiedig a holl gydberthnasau a thrafodion y partïon cysylltiedig rydym yn ymwybodol ohonynt.

## SYLWADAU AR Y DATGANIAD ARIANNOL

Cofnodwyd pob trafodyn, ased a rhwymedigaeth yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i wneud amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rheini a fesurwyd ar werth teg, yn rhesymol.

Cyfrifwyd yn briodol am gydberthnasau a thrafodion partïon cysylltiedig ac fe'u datgelwyd yn briodol.

Addaswyd ar gyfer pob digwyddiad neu datgelwyd pob digwyddiad a ddigwyddodd ar ôl y dyddiad adrodd y mae angen ei addasu neu ei ddatgelu.

Datgelwyd pob achos gwirioneddol neu bosibl hysbys o ymgyfreitha a hawliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol i'r archwilydd, a chyfrifwyd amdanynt a'u datgelu yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol.

Nid oes yn y datganiadau ariannol gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau. Mae effeithiau'r camddatganiadau nas cywirwyd a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol a chyda'i gilydd, i'r datganiadau ariannol cyfan.

## SYLWADAU GAN Y CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG

Cydnabyddwn fod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi eu trafod â ni.

Cydnabyddwn ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith cyflwyno adroddiadau ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Cyd-Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig ar 19 Medi 2014.

Rydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem fod wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod yr wybodaeth honno wedi'i throsglwyddo i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych yn ymwybodol ohoni.

Yn gywir,

| | |
|---|---|
| …………………………………………… | ……………………………………………….. |
| **DAFYDD L. EDWARDS**<br>**PENNAETH CYLLID**<br>**CYNGOR GWYNEDD** | **CYNGHORYDD E. CAERWYN ROBERTS**<br>**CADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG** |
| Dyddiad ……………………………. | Dyddiad ……………………………. |

# Atodiad 2

## Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Penodedig i Gyd Bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig

**Adroddiad yr achwilydd annibynnol i Aelodau'r Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig**

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig y Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14 yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol a'r archwilydd annibynnol**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sef datganiadau cyfrifyddu Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig, sy'n rhoi darlun cywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Cynhelir archwiliad er mwyn cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Esboniadol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig ac er mwyn canfod unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn anghywir mewn ffordd berthnasol ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad, neu ei bod yn anghyson mewn ffordd berthnasol â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig**

Yn fy marn i mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig ar 31 Mawrth 2014 ac o'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2013-14.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Esboniadol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i gyflwyno adroddiad arno o ran y Datganiad Llywodraethu y cyflwynaf adroddiad i chi yn ei gylch os na fydd, yn fy marn i, yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-bwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'r Cod Ymarfer Archwilio a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Anthony Barrett**
**Archwilydd Penodedig**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

**30 Medi 2014**

# Atodiad 3

## Crynodeb o’r cywiriadau a wnaed i’r datganiadau ariannol drafft y dylid tynnu sylw Cyd Bwyllgor Angehnion Addysgol Arbennig atynt

Yn ystod ein harchwiliad, gwnaethom nodi’r camddatganiadau canlynol a gywirwyd gan y rheolwyr, ond yr ystyriwn y dylid tynnu eich sylw atynt gan eu bod yn berthnasol i’ch cyfrifoldebau mewn perthynas â’r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol.

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros y cywiriad |
|---|---|---|
| £6,000 | Nodyn 12 - Ailddosbarthiad credydwyr tymor byr:<br>Endidau eraill -£6,000<br>Awdurdodau lleol +£6,000 | I sicrhau datgeliad cywir o gredydwyr tymor byr ar ddyddiad y fantolen. |
| 2013/14 - £27,000<br>2012/13 - £25,000 | I gynnwys croniad absenoldebau cronedig yn y mantolenni agoriadol a chaeedig.<br>Nodiadau 3, 9 a 13 ychwanegwyd o ganlyniad | I gydymffurfio â gofynion datgelu |
| naratif | Nifer fach o newidiadau bychan i gywiro camgymeriadau teipio ac ati | I wella ansawdd y cyfrifon. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk

This page is intentionally left blank

**Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gyfer Anghenion addysgol Ychwanegol**

**Crynodeb o'r Prif Newidiadau Arfaethedig**

**Gareth Payne, Gorffennaf 2014**

**Newidiadau i'r Deddfwriaeth**
Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth sydd yn disgrifio'r trefniadau mae angen eu gwneud i ddiwallu anghenion plant sydd yn profi anawsterau'n addysgol.

**Egwyddorion**
Maen nhw'n pwysleisio ei bod hi'n hollbwysig i sicrhau y diwellir anghenion pob plentyn:
'rhaid sicrhau bod lles gorau dysgwyr yn ystyriaeth hollbwysig,'
'dylai dysgwyr allu disgwyl i'w hanghenion gael eu nodi a'u bodloni,'
'dylai barn dysgwyr, a hefyd barn eu rhieni gael eu hystyried.

**Terminoleg**
Maen nhw am newid yr enw o 'Anghenion Addysgol Arbennig' i 'Anghenion Dysgu Ychwanegol', ac wedi ychwanegu'r gair 'dysgu' yn lle'r cynnig blaenorol, 'Anghenion Ychwanegol' oherwydd roedd hyn yn rhy eang, ac yn cynnwys e.e. anghenion pobl mewn cymunedau teithiol. Mae'r term newydd yn rhoi mwy o ffocws.

Dywedir bod y derminoleg gyfredol yn 'achosi stigma' i blant a phobl ifanc, ac mae ystyron negyddol ynghlwm wrth sawl un o'r hen dermau bellach.

**Cydweithio a Gwrthdaro**
Maen nhw eisiau i'r proses gynnwys llai o wrthdaro; maen nhw'n gweld gormod o gyfle am wrthdaro rhwng awdurdodau a'r cyhoedd yn yr hen system.

**Ymestyn Ystod Oed**
Bydd ymestyn y system i 'bob plentyn a pherson ifanc rhwng 0 a 25 oed y nodwyd bad ganddo ADY ac sy'n derbyn neu'n dymuno derbyn addysg neu hyfforddiant'.

Mae'r awdurdod addysg lleol yn gyfrifol am hyn, er bod y grŵp yma'n cynnwys plant ifanc iawn, h.y. cyn oed mynychu ysgol, a myfyrwyr i fyny at 25 oed.

Dydy'r Papur Gwyn ddim yn ymestyn y system newydd i gynnwys pobl ifanc mewn Addysg Uwch, gan fod yna system dda yn fanno'n barod. Dydy o ddim, chwaith, yn ei ymestyn i bobl ifainc mewn gwaith.

Mae'r rhaniad sy'n bodoli ar hyn o bryd rhwng ysgol ac addysg bellach yn dueddol o achosi anghysondeb yn y trosglwyddo, gyda'r cyfrifoldeb yn symud o'r awdurdodau addysg lleol i 'Weinidogion Cymru'. Nid yw hyn yn arwain yn naturiol at gynllunio manwl da, ac weithiau nid oes gan Weinidogion Cymru'r holl wybodaeth angenrheidiol.

**Cynllun Datblygiad Unigol**
Maen nhw'n cyflwyno'r term Cynllun Datblygu Unigol (CDU) i gymryd lle'r gair Datganiad, ac mae hyn yn cynnwys plant sydd ar hyn o bryd yn dilyn 'Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) anstatudol o fewn yr ysgolion a chynlluniau ôl-16' hefyd. (Dydy Lloegr ddim wedi gwneud hyn, ac yn canolbwyntio felly ar blant a fyddai'n destun datganiad o dan yr hen drefn.) Mae

CDU felly'n gallu bod yn eang iawn, yn amrywio'n ôl oed, lleoliad a dwyster anghenion yr unigolyn.

Ar hyn o bryd, gyda'r system bresennol, mae'r rhaniad rhwng y rhai sydd yn destun datganiad a'r rhai sydd yn cael cymorth mwy anffurfiol heb ei ddiffinio, ac mae awdurdodau lleol felly yn gorfod gwneud eu dehongliad eu hunan. Mae hyn wedi arwain i'r sefyllfa lle mae'r ffin rhwng y ddau'n aneglur ac anghyson. Mae'r berthynas rhwng rhieni a'r awdurdodau lleol yn gallu cael ei effeithio a'i thanseilio gan hyn.

Maen nhw'n rhagweld na fyddai'r awdurdod lleol yn ymwneud llawer â'r plant a'r bobl ifanc y mae angen cymorth arnynt ar hyn o bryd ar lefel Gweithredu gan yr Ysgol, a Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, ond fe fyddent, yn y pen draw, yn gyfrifol am hyn, ac felly bydd angen iddynt sefydlu trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu.

**Tryloyw ac Integredig**
Bwriedir i'r system newydd fod yn deg a thryloyw, ac yn 'integredig'.

**Cod Ymarfer Newydd**
Bydd Cod Ymarfer newydd, ond nid yw hyn ar gael eto, felly mae cynnwys y Papur Gwyn ei hun braidd yn fyr o fanylion.

Nid yw'r Cod Ymarfer cyfredol yn orfodol yn gyfreithiol a bydd y Cod Ymarfer newydd yn fandedol.

**Ysgolion Preifat**
Chaiff awdurdod ddim lleoli rhywun mewn ysgol breifat oni bai bod yr ysgol honno wedi ei chofrestru.

**Barn y Plant a'u Rhieni**
Rhaid ymgynghori â, a gwrando ar farn, y plant eu hun a'u rhieni.

**Asiantaethau Eraill**
Rhaid i'r awdurdod addysg lleol cyd-weithio efo'r bwrdd iechyd, sefydliadau Addysg Bellach, a bydd y Cod Ymarfer, pan ddaw o, yn rhoi cyngor ar sut i weithio'n aml-asiantaethol.

Mae pwyslais ar ymwneud yn gynnar ac ar rannu gwybodaeth efo asiantaethau gwahanol.

**Cydlynydd**
Bydd Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ym mhob ysgol, ond ni fydd angen iddynt gael cymhwyster arbennig, fel mae deddfwriaeth Lloegr yn gofyn amdano.

**Apêl**
Mae'r un hawl i apelio i Dribiwnlys yn bodoli. Ond mae hyn rŵan
wedi ei ymestyn i gynnwys y plant a phobl ifainc eu hunain, a phobl ifainc oed 16 a mwy.

Mae angen i awdurdodau addysg lleol sicrhau bod system dda o geisio datrys anghytundebau, bydd hi'n ofynnol i ddefnyddio prosesau cwynion lleol cyn cyfeirio apêl i'r Tribiwnlys. Mae'r pwyslais ar geisio osgoi mynd i apêl.

**Dyslecsia**
Bydd gwybodaeth yn dod eto gan y Llywodraeth  i amlinellu sut i ymdrin ag anawsterau dysgu penodol (er enghraifft, dyslecsia).

**Cost**
Maen nhw'n deud na fydd hyn yn costio mwy na'r system bresennol, os bydd cynllunio gofalus. Ond mae sôn y bydd efallai cost ychwanegol oherwydd apeliadau ynglŷn â phlant nad ydynt ar ddatganiad rŵan, ac wrth greu system o ddatrys anghydfodau mwy cynhwysfawr.

**Goblygiadau'r Papur Gwyn i'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig**

Seilir yr ymateb hwn ar y pwyntiau yn y Crynodeb, sydd wedi ei atodi.

**Egwyddorion**

Yn naturiol rydym holl yn cyd-fynd â'r egwyddorion hyn, ac maent ond yn ail-ddeud yr egwyddorion sydd wedi bodoli ym maes addysg arbennig ers Deddf Addysg 1981 o leiaf.

Gallem ond cytuno efo'r sylwadau am wrthdaro, rydym wedi cael profiadau am hwn dros y blynyddoedd.

Efallai bydd angen i ni newid ein henw!

**Newid Termau**

Rydym yn cytuno gyda'r newid i dermau. Mae'n ymddangos yn bwynt eithaf bychan, ond mae termau'n dueddol o gasglu ystyron negyddol dros amser, beth bynnag bo'u cryfderau fel termau fel y cyfryw.

**Ymestyn yr Ystod Oed**

Bydd angen i'r gweithwyr maes fedru cyrraedd ysgolion a chylchoedd meithrin yn fwy aml nag maen nhw'n ei wneud ar hyn o bryd, ac efallai bydd hyn yn arwain at ychydig mwy o amser staff, ond y newid mawr fydd gweithio efo colegau addysg bellach. Nid oes gennym ddim presenoldeb yn y colegau ar hyn o bryd. Mae potensial i gryn dipyn o gynyddu gwaith i'r seicolegwyr a'r athrawon arbenigol yn y datblygiad yma, wrth ystyried yr angen i gynnal pobl ifainc gydag anawsterau synhwyraidd trwy arholiadau ar lefel uchel, ac asesu a chynnal pobl ifainc gyda dyslecsia.

O ystyried bod poblogaeth coleg oddeutu hanner poblogaeth y bobl ifainc rhwng 16 a 25 oed, mae hyn yn gyfystyr i boblogaeth 4 blwyddyn o blant ysgol. Rydym yn gweithio efo poblogaeth 13 blwyddyn o blant ysgol ar hyn o bryd, wrth gwrs, ac felly byddai 4 blynedd ychwanegol yn golygu cynnydd o 30% . Rhagwelir y bydd angen cynyddu o leiaf 20% o'n gweithlu, sef oddeutu un a hanner seicolegydd ac un a hanner athrawes deithiol arbenigol, i gynnal y bobl ifanc hyn.

Fel sydd efo'n gwaith ar hyn o bryd, bydd y gynhaliaeth hon yn cynnwys hyfforddiant a chefnogaeth fwy cyffredinol, yn ogystal â gweithio efo plant a phobl ifanc unigol.

**Yr Adran Addysg yn Gyfrifol**

Bydd y ddau awdurdod yn gyfrifol am fonitro cynlluniau addysg unigol llawer mwy o blant a phobl ifainc. Mae gan y Cydbwyllgor systemau i wneud hyn. Rydym yn monitro cynlluniau plant ar ddatganiad eisoes, ac wedi bod yn monitro plant ar drefniadau cynhaliaeth ar lefel ysgol a chynhaliaeth ysgol a mwy, sef y system 3*.

Ond bydd ffurfioli cymorth cynhaliaeth ysgol a mwy, ac ymestyn hyn i blant ifengach ac i fyfyrwyr coleg addysg bellach, yn golygu mwy o waith i'r gweithwyr swyddfa, yn prosesu ceisiadau a phenderfynu ar ddilysrwydd rhaglenni a darpariaethau.

Rhagwelir system lle bydd meini prawf pendant, a mesuriadau pendant o gynnydd, fyddai'n dryloyw a heb fod yn agored i farn, ac i'r ysgol a'r colegau anfon gwybodaeth i mewn i'r

Cydbwyllgor yn flynyddol, i'r rhain gael eu prosesu trwy system debyg i'r system panel presennol.

Bydd rhaid bod yn fwy gofalus i nodi'n union y math o wybodaeth sydd angen, yn cynnwys cynnydd y plentyn, a bydd angen meini prawf clir a diamwys o ba bryd bydd y ddarpariaeth yn cynyddu neu leihau.

Mae'n bosibl gwneud hyn trwy ddatblygu'r system papur presennol, ond byddai'n well gwneud hyn yn electroneg yn bennaf.

Unwaith eto, gellir rhagweld cynnydd o 20% o leiaf yn yr amser y bydd angen ar dîm gweinyddol y Cydbwyllgor, eto tua un person a hanner..

Dydy'r angen i gynnwys asiantaethau eraill fel y Bwrdd Iechyd ddim mor amlwg yn wahanol wrth ddarllen y Papur Gwyn ei hun nag oedd y disgwyl, ac mae'n debyg bydd y hen anawsterau o orfod disgwyl ymateb gan y bwrdd iechyd, a'r gwasanaethau cymdeithasol, yn dal i fodoli.  Ond mae'r cyfrifoldeb yn glir ar ysgwyddau'r awdurdod addysg lleol.

Efallai bod angen cyfarfodydd cychwynnol gyda'r ddwy asiantaeth hyn, i drafod y sefyllfa a cheisio dod o hyd i ddatrysiad, efallai trwy gael swyddog client yn y ddwy asiantaeth.

Bydd angen wedyn trafod efo'r swyddogion client yn rheolaidd, ac efallai eu cynnwys mewn cyfarfodydd tebyg i'n cyfarfodydd panel presennol.

Dylai'r cyfarfodydd panel yma fod yn llai trwm na'r rhai presennol os bydd y meini prawf yn glir a diamwys.

**Cynllun Datblygu Unigol yn Lle Datganiad**
Er nad yw'r Papur Gwyn ei hun yn gwahaniaethu rhwng anghenion plant gwahanol, bydd modd i ni wneud trefn anffurfiol, lle mae mwy o drafodaeth efo plant ag anghenion mwy dwys, a mwy o ddibynnu ar y meini prawf clir efo plant eraill, i wneud penderfyniadau'n haws, ac felly yn gyflymach.

**Cod Ymarfer Newydd**
Os bydd y Cod Ymarfer newydd yn drylwyr a chynhwysfawr, yna y bydd yn haws i ni ddatblygu'r systemau newydd rydym eu hangen.

**Apeliadau i'r Tribiwnlys**
Yn sicr mae potensial am gynyddu achosion apêl, neu o leiaf cynyddu'r nifer o achosion a fydd yn mynd i'r system datrys anghytundebau.  Bydd modd i'r Cyd-Bwyllgor gymryd rhan mewn trefnu'r system datrys anghytundebau.  Hefyd, fel arfer mae gweithiwyr maes y Cyd-Bwyllgor yn mynychu cyfarfodydd apêl, ac felly bydd hyn â goblygiadau i'r gweithwyr y Cyd-Bwyllgor hefyd.

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# NOT FOR PUBLICATION

Adolygiad Strategol Anghenion Addysgol Ychwanegol a Chynhwysiad - Cyngor Gwynedd
Additional Learning Needs and Inclusion Strategic Review - Gwynedd Council

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
**PUBLIC INTEREST TEST**

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) Paragraph(s) | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 Schedule 12A Local Government Act 1972 |
| [un neu fwy o /one or more of 12,13,14,15,16,17,18,18A,18B,18C] | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae angen trafodaeth gyhoeddus ar yr Adolygiad Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.<br><br>A public discussion on the Review of Additional Learning Needs and Inclusion is required. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Ysytyrir ei fod yn gyn amserol i rannu'r adolygiad yn gyhoeddus cyn cael barn ac arweiniad y Cyd-Bwyllgor AAA fel y fforwm arbenigol yn y maes.<br><br>It is considered premature to share the review publicly until the views and guidance of the SEN Joint-Committee as the specialist forum in this area have been obtained. |
| Argymhelliad: *Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad yn fwy o bwys/~~llai o bwys~~ na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth [* dilewch y geiriau nad ydynt yn berthnasol]<br><br>Recommendation: *The public interest in maintaining the exemption outweighs/~~does not outweigh t~~he public interest in disclosing the information. [*delete as appropriate] | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank